# Brwsio Dannedd

Brwsio, brwsio dannedd bob bore a phob nos,
Brwsio, brwsio dannedd er mwyn cael gwên fach dlos,
Tro y tap ymlaen, yna cydia yn dy frwsh,
Gwasga'r tiwb past dannedd, a brwsia yn ddi-ffws.

Brwsio i fyny a brwsio i lawr,
Brwsio i fyny a brwsio i lawr,
Brwsio pob un dant yn awr,
Brwsio i fyny a brwsio i lawr.

Brwsio'r tu blaen a brwsio'r tu ôl,
Brwsio'r tu blaen a brwsio'r tu ôl,
Rhaid gwneud hyn ddwywaith yn ddyddiol,
Brwsio'r tu blaen a brwsio'r tu ôl.

Brwsio'r dannedd ffrynt a brwsio'r dannedd cefn,
Brwsio'r dannedd ffrynt a brwsio'r dannedd cefn,
Does dim ots ym mha drefn,
Brwsio'r dannedd ffrynt a brwsio'r dannedd cefn.

Brwsio, brwsio dannedd bob bore a phob nos,
Brwsio, brwsio dannedd er mwyn cael gwên fach dlos,
Tro y tap ymlaen, yna cydia yn dy frwsh,
Gwasga'r tiwb past dannedd, a brwsia yn ddi-ffws.

© 2019 S4C